Gall gwasanaethau llywodraeth osod cwcis ychwanegol, ac os felly, bydd ganddynt bolisi a baner cwcis ar wahân. Gallwch newid eich gosodiadau cwci ar unrhyw bryd.
Cuddio



CANLLAWIAU

# Addasiad dros dro o Ddeddf Addysg 1996 sy'n ymwneud â chofrestru disgyblion

Cyngor i ysgolion ac awdurdodau lleol ynghylch cofrestru disgyblion mewn ysgolion a hybiau dros dro.

Cyhoeddwyd gyntaf:
2 Gorffennaf 2020
Diweddarwyd ddiwethaf:
2 Gorffennaf 2020

Cynnwys

Disgrifiad
Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

## Disgrifiad

Mae Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â llesteirio, atal a rheoli lledaeniad y coronafeirws mewn ysgolion, sefydliadau addysgol eraill a lleoliadau gofal plant yng Nghymru. Mae'n cynnwys pwerau i wneud hysbysiadau yn dileu neu lacio darpariaethau statudol dros dro.

Mae adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 wedi'i diwygio dros dro fel a ganlyn 'A person is not for the purposes of the Education Act 1996 to be treated as a pupil at a school merely because any education is provided for that person at the school on a temporary basis for reasons relating to the incidence or transmission of coronavirus'.

Bu'n rhaid ei diwygio er mwyn atal y plant sy'n mynd, dros dro, i ysgol neu 'hyb' gwahanol i'w hysgol arferol rhag cael eu cofrestru yno fel disgyblion. Mae cofrestru yn gosod rhwymedigaethau penodol ar ysgol, er enghraifft, i'w galluogi i aros yn yr ysgol y maent yn mynd iddi dros dro yn ystod argyfwng y coronafeirws. Mae'r addasiad yn sicrhau bod y plant hynny, yn hytrach, yn dychwelyd i'w hysgol bresennol pan fo'n briodol.

Mae'r hysbysiad hwn mewn grym o 29 Mehefin a chaiff ei adolygu bob mis.

## Camau gweithredu ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

Rhaid i ysgolion a 'hybiau' beidio â chofrestru disgyblion sy'n mynd iddynt dros dro am resymau sy'n ymwneud â phandemig y coronafeirws.

Mae'n rhaid cadw cofnodion presenoldeb er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl ddysgwyr a'r staff. Rhaid i'r cofnod hwn gynnwys y diwrnodau a'r sesiynau a fynychwyd gan bob disgybl unigol. Rhaid iddo fod ar gael i'w archwilio gan awdurdodau lleol a'r gwasanaethau brys yn ôl yr angen.

Rhaid cadw lleoedd mewn ysgolion ar gyfer disgyblion sy'n mynd i ysgol wahanol dros dro, gan sicrhau y gallant ddychwelyd i'w hysgol arferol pan fydd Gweinidogion Cymru yn caniatáu hynny.

Cyhoeddwyd gyntaf
2 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf
2 Gorffennaf 2020